*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2801 (Cy.269)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Tachwedd 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 303A(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ("y Ddeddf") ac sydd bellach yn arferadwy, mewn perthynas â Chymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Personau ac ymchwiliadau y mae'r Rheoliadau yn gymwys iddynt**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n cael ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal, neu fel un o'r personau sydd i gynnal, ymchwiliad cymwys, yn unol ag ystyr y term hwnnw yn adran 303A(1) o'r Ddeddf, sy'n agor ar neu ar ôl y dyddiad y mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym.

**Y swm dyddiol safonol**

**3.** Y swm dyddiol safonol a ragnodir o dan adran 303A(5) o'r Ddeddf yw:

(a) £520, os yw'r dyddiad y mae'r ymchwiliad cymwys yn agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2003 ond cyn 1 Ebrill 2004;

(**1**) 1990 p.8. Mewnosodwyd adran 303A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 1 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995 (p.49). *Gweler* adran 336(1) o Ddeddf 1990 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran a enwyd, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2; *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(b) £618, os yw'r dyddiad y mae'r ymchwiliad cymwys yn agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
12 Tachwedd 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gymwys pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i awdurdodi i adennill y costau y mae wedi'u hysgwyddo mewn cysylltiad ag ymholiadau neu wrandawiadau eraill sy'n ymwneud â chynlluniau datblygu unedol, cynlluniau lleol neu barthau cynllunio syml.

Mae'r Rheoliadau yn pennu swm dyddiol safonol y gellir ei godi am bob diwrnod y mae'r person sydd wedi'i benodi i gynnal yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad arall wrthi'n cynnal yr ymchwiliad neu'r gwrandawiad hwnnw neu os yw wrthi fel arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig ag ef.

Y swm penodedig yw:

£520 os yw'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2003 ond cyn 1 Ebrill 2004; a

£618 os yw'n agor ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004.